# MATHIAS, JAMES GORONWY (1842 - 1895), gweinidog gyda'r Bedyddwyr, a llenor

**Enw:** James Goronwy Mathias
**Dyddiad geni:** 1842
**Dyddiad marw:** 1895
**Rhyw:** Gwryw
**Galwedigaeth:** gweinidog gyda'r Bedyddwyr, a llenor
**Maes gweithgaredd:** Crefydd; Llenyddiaeth ac Ysgrifennu
**Awdur:** Benjamin George Owens

Ganwyd ym Manceinion, 1842, ond symudodd yn ifanc i'r Penrhyncoch, Sir Aberteifi, ac yno y bedyddiwyd ef a'i godi i bregethu. Aeth i Aberdâr yn 1873 ac ymaelodi yn yr Ynys-lwyd, ac oddi yno yn 1874 i gwm Rhymni a chymryd gofal eglwys fechan Bethania, Troedrhiw'r-fuwch. Ymsefydlodd tua 1875 yn Ramah ac Errwd, Brycheiniog, ac, yn 1881, yn Llansantffraid a Glyndyfrdwy; ymddeolodd tua 1887 a symud i fyw i Gorwen. Ailddychwelodd i'r weinidogaeth gyda'r Saeson ym Mhontlotyn yn 1893 ac yno y bu farw 18 Chwefror 1895 yn 53 oed. Claddwyd ef yn Errwd.

Yr oedd yn llenor adnabyddus, a bu am beth amser mewn partneriaeth â T. Edmunds, argraffydd, Corwen. Ef oedd cychwynnydd a golygydd yr wyth rhifyn o'r *Llenor Cymreig* a gyhoeddwyd yng Nghorwen rhwng Ionawr 1882 a Hydref 1883; cyhoeddodd hefyd *Yr Ystorgell*, *Y Gorsen*, 1872; *Yr Eginyn*, 1874; *Y Dywysen*, 1874; ac *Y Dywysen Aeddfed*, 1875 - i gyd yn ôl pob tebyg at wasanaeth yr ysgol Sul a chyfarfodydd dirwest; a bu'n olygydd ac yn rhannol yn awdur *Hanes Bywyd C. H. Spurgeon*, 1892. Sgrifennai dan y ffugenw ' Goronwy Ddu.'

## Awdur

**Benjamin George Owens**

## Ffynonellau


*Seren Cymru*, 29 Mawrth 1895

*Dyddiadur a Llawlyfr Undeb Bedyddwyr Cymru*, 1896

*Notable Welshmen (1700–1900)* (1908)

T. R. Roberts, *Eminent Welshmen: a short biographical dictionary of Welshmen... from the earliest times to the present* (1908)

Ionawryn Williams, *Geiriadur Bywgraffiadol, yn cynnwys Byr-hanes y Cymry mwyaf adnabyddus fuont yn preswylio yn Manceinion* (1896)

*Catalogue of Printed Literature in the Welsh Department, Cardiff Free Libraries* (1898)

David Jenkins, *O Blas Gogerddan i Horeb (Taith Dwy Ganrif)* (Aberystwyth 1933)


## Dolenni Ychwanegol

Wikidata: Q28360867


**Dyddiad cyhoeddi:** 1953



**Hawlfraint Erthygl:** http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu